



SOCIAL SERVICES

Your Unified Assessment



This information may also be provided, by request, in other languages, in larger print, CD, or in simplified version. Please contact the Innovation and Information Team on tel: 01446 704814 to make arrangements. Email socialcareinfo@valeofglamrgan.gov.uk

Contents

| | Page |
|---|------|
| What is Unified Assessment? | 3 |
| What happens on first contact with health or social services? | 4 |
| Will you talk to the person who cares for me? | 5 |
| What happens next? | 5 |
| What is a Care Plan? | 6 |
| Will I have to pay? | 7 |
| Can I make my own arrangements? | 7 |
| What if my needs or circumstances change? | 8 |
| Appeals, Complaints and Comments | 8 |

What is Unified Assessment?

Unified Assessment is health and social care professionals working together assessing and managing your care and sharing information, with your consent.

If it appears that you have health and/or social care needs we must offer to assess your needs.

Your assessment is to find out if you are entitled to health and social care support to meet your needs.

The level and depth of assessment is in proportion to your needs, so if your needs are simple you won't need a complicated assessment. If your needs are complex, your assessment may involve more than one professional, such as a Social Worker, Occupational Therapist, Nurse, Doctor and other specialist health professionals.

Local councils provide or arrange community services for adults who need support, care or protection, including people leaving hospitals. Local health boards, which run hospitals and community health services, provide health care services.

Community Care could include:

- Personal or domestic care provided in your home
- Supported activities in day centres and other community settings
- Residential or nursing home care
- And more

What happens on first contact with health or social services?

The Unified Assessment Enquiry and Contact Assessment:

- Collects basic personal information
- Looks at the problems you are experiencing that led to a request for help, and
- Looks for appropriate solutions, including whether other professionals can help
- It also considers the needs of any unpaid carer involved in your care

Further Assessment:

The next stage of the assessment is proportionate to your level of need and risk and is to help us decide whether you need specialist help, for example a Doctor, Nurse, Social Worker or Therapist.

Specialist Assessment:

This is an assessment by one or more specialists. For example, you may need one (or more) of these if you have a sensory disability such as poor eyesight or difficulties in caring for yourself due to illness or disability.

Comprehensive Assessment:

If your level of need and risk is more complicated, this means that a variety of professionals will work together to ensure that the outcome of your assessment and agreed care plan covers all aspects of your health and social care needs. Examples are housing, family and friends, community support networks, day care, social, medical or nursing care.

These assessments can happen in any order.

Will you talk to the person who cares for me?

Unified Assessment helps us to identify those people who play an important part in helping you live independently in the community by providing you with regular support. They could be relatives, neighbours or friends and live near or far away from you. They are often called unpaid or informal carers. They may need additional support to help you. If you have a relative or friend who cares for you, you might like them to be involved in the discussion.

An unpaid carer is entitled to have an assessment of his/her own needs (as a carer) at any stage of this process.

What happens next?

When we have **assessed** and **agreed** your care needs with you, we can consider how to meet those eligible needs in the best way. We will consider both your needs and your carers' needs. We will discuss with you what we are proposing and agree what it is we are trying to achieve. If you have social care or long term health care needs, we will look at the risks we identified in your assessment to find out if you are eligible for services.

Demand for services is always heavy and each council has a limited amount of money. We have to make sure that the services we provide are given to the people with the greatest need. We do this by using eligibility criteria. How we decide is the same for everyone. It also means that we treat everyone fairly and everyone can see and understand how we decide who receives help.

If you are not eligible for community care services we will offer you advice and information about other ways your needs may be met. This may include services provided in the community by other council departments or independent and voluntary bodies.

If you are eligible then we will write a 'Care Plan'.

What is a Care Plan?

A Care Plan explains how your needs will be met - if possible in the ways you would like them to be met.

It will include details of your needs, what the plan sets out to do, what outcomes you hope to achieve, and any services you will get to meet your eligible needs.

Usually we will be able to arrange all the services you need quickly but, on occasions, you may have to wait.

How do you hold and share my records?

You will hold a copy of your Unified Assessment Record. This is a record of the needs you have identified and what professionals have done to respond to those needs. This record will include a copy of your care plan.

You can help health and social care professionals and others involved in your care to communicate with each other by allowing them to see your unified assessment record. You should also take it to appointments with health and social care workers to share information and keep the record up to date.

You can ask for more information on how we safeguard and share your personal information.

Will I have to pay?

There is no charge for a unified assessment or for giving you advice and information.

You may have to pay for your social care services. This depends on how much service you receive and how much money you have.

If eligible, you will receive free nursing care in your own home or in a care home, although you may have to contribute towards other aspects of care such as personal care, food and accommodation costs.

You can ask for more information on charging for services.

Can I make my own arrangements?

Of course, if you wish to make your own arrangements for social care and pay for them yourself, you can.

Even if your assessment shows you are entitled to social care services then, you may be able to make your own care arrangements and pay your care staff yourself. If this were possible in your situation, we would give you the money to do this and help you set this up. We would also oversee the arrangements to make sure the money is used properly. **This is called a Direct Payment.**

Your care coordinator should tell you if you can do this. If you want to know more about Direct Payments, ask for a leaflet.

What if my needs or circumstances change?

If there are long term services in your care plan, we will plan a review to check if the care plan we've agreed is meeting your needs:

- After the first 4-6 weeks
- Again at least once a year
- Or if you contact us to tell us your needs have changed

If your needs have changed, you will need to have a new assessment of your needs.

Some people only require social care and health services for a short time while they recover or while they wait for treatment. When we review your care plan, or if you contact us to tell us your needs have changed, we may assess that you no longer need health or social care services.

Appeals, Complaints and Comments

We welcome all comments about our services, because we need information from people who use our services to help us improve them.

We try hard to arrange and deliver high quality services, but we may not always get it right. If you are unhappy about the standard of our services, it is important that you let us know. Usually we can put things right quickly.

You can appeal against a decision if you disagree with it.

Examples of the sort of decisions you can appeal against are:

- A decision that you do not appear to need an assessment
- Following a specialist or comprehensive assessment, a decision that you do not qualify for a service
- If you need more services or different services from those we are proposing to provide or are providing

You can complain if you think we have not followed our processes properly, or because the quality of your service is poor. If you are not sure whether you should appeal or complain, just tell us what your concerns are anyway. If you need help to make your appeal or complaint, for example if your disability makes it harder for you to communicate, let us know and we will help you.

To do any of these things contact your care coordinator or ask for a leaflet on complaints from the appropriate agency.

Cardiff and Vale University Health Board
2 Stanwell Road, Penarth, Vale of Glamorgan
Tel: 029 2035 0663
Fax: 029 2035 0601
Web: www.cardiffandvaleulhb.wales.nhs.uk

Vale of Glamorgan Social Services
Contact OneVale (C1V)
Civic Offices, Holton Road, Barry, Vale of Glamorgan, CF63 4RU
Tel: 01446 700111
Fax: 01446 746837
Text phone: 01446 741219
Email: C1V@valeofglamorgan.gov.uk
Web: www.valeofglamorgan.gov.uk

These are the social care standards you can expect from us:

- We will allocate someone to work with you and tell you their name and how to contact them
- When we receive your enquiry we will assess how urgent it is
 - If the risk appears to be critical, we will begin the assessment on the same day and we will arrange for the services to start within 24hours, if someone is eligible to receive them
 - If the risk appears to be substantial, requiring prompt action, we will aim to begin the assessment within five working days and complete it within four weeks. If the assessment shows a service is needed we will arrange for it to start, if eligible, within five working days. This could be to prevent a crisis or contribute to a hospital discharge.
 - If the risk appears to be moderate or low, we will aim to begin assessment within six weeks and complete it within a further four weeks. Social Care services will only be provided for those assessed as having substantial and critical levels of need and risk. Information and advice about access to other community services will be provided to those assessed as ineligible to access social care services.
- We will offer to assess anyone who regularly cares for you
- If you are receiving a package of care we will give you a copy of your assessment outcomes and care plan and review your care plan within 4-6 weeks after the service has started
- We will review your care plan again at least once every year.

SS/59/OCT2011



GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Eich Aseiad Unedig



Cewch y wybodaeth hon hefyd mewn ieithoedd eraill, mewn print brasach, ar gryno ddisg neu wedi'i symleiddio, drwy holi. Ffoniwch Dîm Arloesi a Gwybodaeth ar 01446 704814 neu anfonwch neges e-bost i socialcareinfo@valeofglamorgan.gov.uk er mwyn gwneud trefniadau.

| | Tudalen |
|---|----------------|
| Beth yw Asesiad unedig? | 3 |
| Beth sy'n digwydd wrth gysylltu â gwasanaethau iechyd neu gymdeithasol? | 4 |
| Fyddwch chi'n siarad â'r person sy'n gofalu amdanaf? | 5 |
| Beth sy'n digwydd nesaf? | 5 |
| Beth yw Cynllun Gofal? | 6 |
| Fydd yn rhaid i fi dalu? | 7 |
| A gaf i wneud fy nhrefniadau fy hun? | 7 |
| Beth petai fy anghenion neu amgylchiadau'n newid? | 8 |
| Apeliadau, Cwynion a Sylwadau | 8 |

Beth yw Asesiad Unedig?

Pan fydd arbenigwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn cydweithio er mwyn asesu a rheoli'ch gofal, a thrwy eich caniatâd yn rhannu gwybodaeth, byddwn yn galw'r broses yn Asesiad Unedig.

Os yw'n ymddangos bod angen gofal iechyd neu gymdeithasol arnoch, mae'n rhaid i ni gynnig asesu'ch anghenion.

Diben yr asesiad yw darganfod a ydych yn gymwys i gael help oddi wrth arbenigwyr gofal iechyd a cymdeithasol i gwrdd â'ch anghenion ai peidio.

Bydd lefel a manyldeb yr asesiad yn dibynnu ar eich anghenion, felly os yw eich anghenion yn syml, ni fydd angen asesiad cymhleth arnoch. Os yw eich anghenion yn gymhleth, y mae'n bosibl y bydd angen help gweithiwr cymdeithasol, therapydd gwaith, nyrs, meddyg neu ryw arbenigwr arall er mwyn cynnal eich asesiad.

Bydd cynghorau lleol yn darparu ac yn trefnu pob math o wasanaethau gofal ar gyfer oedolion yn y gymuned pan fydd angen cymorth, gofal neu ymgeledd arnynt - sef ar ôl iddynt fod yn yr ysbyty, er enghraifft. Bydd byrddau iechyd lleol, sy'n rhedeg ysbytai a gwasanaethau iechyd yn y gymuned, yn darparu gwasanaethau gofal iechyd.

Gallai gofal yn y gymuned gynnwys:

- Gofal personol a chymorth yn y cartref
- Cymorth i ddilyn gweithgareddau mewn canolfannau dydd a manau eraill yn y gymuned
- Gofal mewn cartref preswyl neu gartref nyrsio
- A llawer mwy'n ogystal.

Beth sy'n digwydd wrth gysylltu â gwasanaethau iechyd neu gymdeithasol?

Byddwn yn cynnal Asesiad Holï a Chysylltu Unedig er mwyn:

- casglu gwybodaeth bersonol sylfaenol;
- ystyried y problemau a achosodd i chi ofyn am gymorth yn y lle cyntaf;
- chwilio am ffyrdd addas o ddatrys eich problemau a gofyn a fo unrhyw beth y gallai gweithwyr proffesiynol eraill ei wneud i helpu;
- ystyried anghenion unrhyw ofalwyr di-dâl sy'n eich helpu.

Asesiad pellach:

Mae'r cam nesaf yn yr asesiad yn dibynnu pa mor ddwys yw eich anghenion a'r risg, ac yn ein helpu i benderfynu a fo angen cymorth arbenigwr arnoch ai peidio e.e. meddyg, nyrs, gweithiwr cymdeithasol neu therapydd.

Asesiad gan arbenigwr:

Asesiad gan un neu ragor o arbenigwyr yw hwn. Bydd angen cymorth felly arnoch os oes gennych anabledd fel diffyg ar y clyw neu'r golwg, neu os ydych yn cael anhawster gofalu amdanoch chi'ch hun oherwydd salwch neu anabledd.

Asesiad cynhwysfawr:

Os yw eich anghenion a'r risg yn fwy cymhleth, bydd gwahanol arbenigwyr yn cydweithio er mwyn sicrhau bod eich asesiad a'r cynllun a gytunwyd ar eich cyfer yn darparu ar gyfer pob agwedd ar eich gofal. Rhoddir ystyriaeth, er enghraifft, i faterion fel tai, teulu a ffrindiau, rhwydweithiau cymorth yn y gymuned, gofal dydd a gofal cymdeithasol, meddygol neu nyrsio.

Gellir cynnal yr asesiadau hyn mewn unrhyw drefn.

Fyddwch chi'n siarad â'r person sy'n gofalu amdanaf?

Mae Asesiad Unedig o gymorth i ni ddod o hyd i'r bobl bwysig sy'n eich helpu i fyw'n annibynnol yn y gymuned drwy eich cefnogi'n rheolaidd. Perthnasau, cymdogion neu ffrindiau yw'r rhain efallai sy'n byw ymhell oddi wrthyhych neu wrth eich ymyl. Gofalwyr di-dâl neu anffurfiol yw'r enw arferol arnynt ac y mae'n bosibl bod angen help ychwanegol ar y bobl hyn er mwyn iddynt gael eich helpu chi. Os oes gennych berthynas neu ffrind sy'n gofalu amdanoch, efallai yr hoffech i'r person hwnnw fod yn rhan o'r drafodaeth.

Caiff gofalwr di-dâl ofyn am gael asesu ei anghenion fel gofalwr yn ystod unrhyw ran o'r broses hon.

Beth sy'n digwydd nesaf ?

Pan fyddwn wedi asesu a chytuno eich anghenion gofal gyda chi, gallwn wedyn benderfynu sut orau i ddarparu ar gyfer yr anghenion cymwys hynny. Byddwn yn ystyried eich anghenion chi ac anghenion eich gofalwyr. Byddwn yn trafod yr hyn sydd gennym i'w gynnig gyda chi ac yn cytuno ar nod. Os bydd angen gofal iechyd neu gymdeithasol arnoch yn y tymor hir, byddwn yn edrych ar y risgiau a nodwyd yn eich asesiad er mwyn gweld a fo gennych hawl i wasanaethau ai peidio.

Bydd galw mawr am wasanaethau bob amser, a hyn o arian yn unig sydd gan bob cyngor. Mae'n rhaid i ni felly sicrhau bod y bobl fwyaf anghenus yn manteisio ar y gwasanaethau. Byddwn yn gwneud hynny drwy ddefnyddio meini prawf cymhwys. Yr un ffordd o benderfynu sydd gennym ar gyfer pawb. Mae hyn yn golygu bod pawb yn cael ei drin yn deg ac yn cael gweld a deall yn union sut y byddwn yn penderfynu pwy a gaiff gymorth.

Mae croeso i chi ofyn am fwy o wybodaeth am bwy'n union sy'n gymwys i gael gwasanaethau gofal yn y gymuned.

Os nad ydych yn gymwys i gael gwasanaethau eich hun, cewch gyngor a gwybodaeth i'ch helpu i ddod o hyd i ffyrdd eraill o ddarparu ar gyfer eich anghenion. Efallai y gwelwch fod ffordd o fanteisio ar y gwasanaethau y bydd adrannau eraill o'r cyngor a chyrrff annibynnol neu wirfoddol yn eu darparu yn y gymuned, er enghraifft.

Os ydych yn gymwys, byddwn yn mynd ati i ysgrifennu 'cynllun gofal' ar eich cyfer.

Beth yw Cynllun Gofal?

Mae Cynllun Gofal yn egluro sut y bwriadwn ddarparu ar gyfer eich anghenion drwy weithredu yn y ffordd sydd orau gennych chi bryd bynnag y gallwn.

Mae'n cynnwys manylion am eich anghenion, nodau'r cynllun, yr hyn yr ydych am ei gyflawni a'r gwasanaethau y bwriadwn eu cynnig er mwyn darparu ar gyfer eich anghenion cymwys.

Fel arfer, byddwn yn trefnu'r holl wasanaethau sydd eu hangen arnoch yn ddigon cyflym er bod oedi o bryd i'w gilydd.

Sut byddwch yn cadw ac yn rhannu fy nghofnodion?

Bydd gennych gopi o'ch Cofnod Asesu Unedig. Dyma gofnod o'r anghenion yr ydych wedi'u nodi ac ymateb arbenigwyr i'r anghenion hynny. Bydd y cofnod hwn yn cynnwys copi o'ch cynllun gofal.

Byddai o help i arbenigwyr iechyd a gofal cymdeithasol a gweithwyr eraill sy'n ymwneud â'ch gofal gyfathrebu â'i gilydd petaech yn dangos eich cofnod asesu unedig iddynt. Gwnewch yn siŵr ei fod gennych pan fyddwch yn cyfarfod â'r arbenigwyr hynny, felly, er mwyn iddynt gael rhannu gwybodaeth a chadw cofnod cyfredol.

Mae croeso i chi ein holi rhagor am ein dulliau o ddiogelu a rhannu eich gwybodaeth bersonol.

Fydd yn rhaid i fi dalu?

Ni fyddwn yn codi unrhyw dâl arnoch am yr asesiad unedig na'r cyngor a'r wybodaeth a roddwn i chi.

Serch hynny, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi dalu am eich gwasanaethau cymdeithasol. Bydd hyn yn dibynnu'n llwyr ar faint y gwasanaethau sy'n cael eu darparu a faint o arian sydd gennych.

Os ydych yn gymwys, cewch ofal nyrsio am ddim yn eich cartref eich hun neu mewn cartref gofal. Serch hynny, efallai bydd yn rhaid i chi dalu am rai agweddau eraill ar eich gofal fel costau gofal personol, bwyd a llety.

Mae croeso i chi ofyn am fwy o fanylion am y drefn sy'n cael ei dilyn wrth godi am wasanaethau.

A gaf i wneud fy nhrefniadau fy hun?

Mae pob croeso i chi drefnu eich gofal cymdeithasol eich hun a thalu amdano hefyd, os mynnwch.

Hyd yn oed petai'r asesiad yn dangos eich bod yn gymwys i gael gofal cymdeithasol, gallai fod yn bosibl o hyd i chi wneud yr holl drefniadau a thalu i'r staff gofal eich hun. Petai eich sefyllfa'n caniatáu hynny, byddem yn rhoi'r arian i chi ac yn eich helpu i drefnu popeth. Byddem hefyd yn cadw golwg ar eich trefniadau er mwyn sicrhau bod yr arian yn cael ei wario'n briodol. **Taliad Uniongyrchol** yw'r enw arferol ar y math hwn o daliad.

Bydd eich cyd-drefnydd gofal yn gallu dweud a fo hyn yn ymarferol i chi ai peidio. Os hoffech wybod mwy am Daliadau Uniongyrchol, gofynnwch am daflen.

Beth petai fy anghenion neu amgylchiadau'n newid?

Os yw'r cynllun gofal a gytunwyd ar eich cyfer yn cynnwys gwasanaethau tymor hir, byddwn yn sicrhau ei fod yn dal i ddarparu ar gyfer eich anghenion drwy ei adolygu:

- ar ôl y 4 - 6 wythnos gyntaf
- o leiaf unwaith y flwyddyn wedyn
- bryd bynnag y byddwch yn cysylltu â ni i ddweud bod eich anghenion wedi newid.

Os bydd eich anghenion yn newid, bydd yn rhaid i chi gael eich asesu o'r newydd.

Bydd angen gwasanaethau ar rai pobl am ychydig o amser yn unig, sef wrth aros i gael triniaeth neu wella ar ei hôl, er enghraifft. Pan fyddwn yn adolygu'ch cynllun gofal, neu'n cael gwybod gennych fod eich amgylchiadau wedi newid, efallai y deawn i'r casgliad nad oes angen gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol arnoch mwy.

Apeliadau, Cwynion a Sylwadau

Byddwn **bob amser** yn croesawu sylwadau ar ein gwasanaethau, am fod angen gwybodaeth oddi wrth y rhai sy'n eu defnyddio er mwyn i ni gael gwella'r gwasanaethau hynny.

Er y byddwn bob amser yn gwneud ein gorau i drefnu a darparu gwasanaethau o'r safon orau, gallem fethu o bryd i'w gilydd. Os ydych yn anfodlon ar safon ein gwasanaethau, y mae'n bwysig i chi roi gwybod i ni. Fel arfer, ni fyddwn fawr o dro'n cael trefn ar bethau.

Os ydych yn anghytuno â phenderfyniad, cewch apelio'n ei erbyn. Dyma'r math o benderfyniadau y byddech o bosibl am eu gwrthwynebu:

- Penderfyniad sy'n erbyn eich asesu;
- Penderfyniad yn sgîl asesiad arbenigol neu gynhwysfawr sy'n dweud nad ydych yn gymwys i gael gwasanaeth;
- Penderfyniad sy'n cyfyngu ar y math o wasanaeth neu nifer y gwasanaethau y byddwn yn fodl on eu darparu neu eisoes yn eu darparu ar eich cyfer.

Cewch gwyno os ydych yn teimlo ein bod wedi methu â dilyn proses yn iawn, neu os cawsoch wasanaeth gwael. Os ydych yn

methu â phenderfynu pa un ai apelio ynteu cwyno fyddai orau, dylech roi gwybod i ni am eich pryderon beth bynnag. Os ydych am apelio neu gwyno a'i bod yn anodd i chi gyfathrebu oherwydd anabledd, rhowch wybod i ni, a byddwn yn eich helpu.

Er mwyn cymryd unrhyw un o'r camau hyn, mynnwch air â'ch cyd-drefnydd gofal neu gofynnwch i'r asiantaeth briodol am daflen.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
2 Heol Stanwell, Penarth, Bro Morgannwg
Ffôn: 029 2035 0663
Ffacs: 029 2035 0601
Gwefan: www.cardiffandvaleulhb.wales.nhs.uk

Gwasanaethau Cymdeithasol Bro Morgannwg
Canolfan Gyswllt UnFro
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, y Barri, Bro Morgannwg, CF63
4RU
Ffôn: 01446 700111
Ffacs: 01446 746837
Ffôn testun: 01446 741219
E-bost: C1V@valeofglamorgan.gov.uk
Gwefan: www.valeofglamorgan.gov.uk

Dyma'r safon o ofal cymdeithasol y gellwch ei disgwyl oddi wrthym:

- Byddwn yn trefnu i rywun weithio gyda chi ac yn rhoi enw a manylion i chi ar gyfer cysylltu â'r person hwnnw.
- Ar ôl derbyn eich cais, byddwn yn ei asesu er mwyn gweld pa mor gyflym y dylid ymateb iddo.
- Os yw'r risg yn ddifrifol, byddwn yn dechrau cynnal asesiad ar yr un diwrnod ac yn trefnu i chi gael gwasanaethau cyn pen 24 awr os ydych yn gymwys;
- Os yw'r risg yn sylweddol ac yn gofyn am ymateb brys, byddwn yn ceisio dechrau cynnal yr asesiad cyn pen pum niwrnod gwaith ac yn ei orffen cyn pen pedair wythnos. Os yw'r asesiad yn dangos eich bod yn gymwys i gael gwasanaeth penodol, byddwn yn sicrhau eich bod yn cael y gwasanaeth hwnnw cyn pen pum niwrnod gwaith (er mwyn arbed argyfwng neu'ch helpu i ddod allan o'r ysbyty, er enghraifft).
- Os yw'r risg yn gymedrol neu'n isel, byddwn yn ceisio dechrau cynnal asesiad cyn pen chwe wythnos ac yn ei orffen yn ystod y pedair wythnos ddilynol. Ar hyn o bryd, dim ond y rhai sydd â'u risg yn ddifrifol neu'n sylweddol a fydd yn cael gwasanaethau gofal cymdeithasol. Bydd pawb sy'n anghymwys yn ôl yr asesiad yn cael gwybodaeth am wasanaethau eraill yn y gymuned a chynghor i'w helpu i fan teisio arnynt.
- Byddwn yn cynnig asesu unrhyw un sy'n rhoi gofal cyson i chi;
- Os ydych yn derbyn pecyn gofal, byddwn yn rhoi copi o ganlyniadau eich asesiad a chynllun gofal i chi ac yn adolygu'ch cynllun gofal cyn pen 4 - 6 wythnos ar ôl i'r gwasanaeth ddechrau;
- Byddwn wedyn yn adolygu'ch cynllun gofal o leiaf unwaith y flwyddyn

SS/59/OCT2011